# HAINES, WILLIAM (1853 - 1922), hanesydd lleol a llyfryddwr

**Enw:** William Haines
**Dyddiad geni:** 1853
**Dyddiad marw:** 1922
**Priod:** Mary Haines (née Nicholas)
**Priod:** Clara Ann Haines (née Rutherford)
**Rhiant:** Elizabeth Haines
**Rhiant:** Thomas Haines
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** hanesydd lleol a llyfryddwr
**Maes gweithgaredd:** Hanes a Diwylliant; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Ysgolheictod ac Ieithoedd
**Awdur:** William Llewelyn Davies

Ganwyd 24 Mai 1853, yn Bryn, Penpergwm, sir Fynwy, mab Thomas ac Elizabeth Haines. Cafodd ei addysg yn ysgol ramadeg y Fenni, a daeth yn glerc twrnai. Priododd (1) 1876, Clara Ann Rutherford (bu farw 1880), a (2) Mary Nicholas (bu farw 1944), o Langibby, sir Fynwy. Casglodd lawer o lyfrau, llawysgrifau, dogfennau, a darluniau yn ymwneuthur â sir Fynwy, ac ar ôl ei farwolaeth ef, prynwyd rhan helaethaf y casgliad gan Syr Garrod a'r arglwyddes Thomas a'i roddi ganddynt i lyfrgell tref Casnewydd-ar-Wysg ym mis Ionawr 1924. Cynullodd hefyd lyfryddiaeth y sir, gwaith llafurfawr a anfonwyd (gan ei weddw) i gystadleuaeth yn eisteddfod genedlaethol Pontyp l, 1933. Erys y gwaith heb ei gyhoeddi, ac y mae yn awr yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru mewn deg cyfrol llawysgrif (NLW MS. 7451-50). Gyda'r cyfrolau hyn y mae chwe chyfrol eraill o lawysgrifau Haines (NLW MS. 9551-6), yn cynnwys llythyrau ato oddi wrth haneswyr a llyfryddwyr eraill - rhestr o'r gohebwyr yn *N.L.W. Handlist of MSS.*, xi. Bu farw 12 Ionawr 1922 yn ei gartref (y Bryn, Penpergwm)a chladdwyd ef yn eglwys Llangattock-juxta-Usk, gerllaw y Fenni.

## Awdur

**Syr William Llewelyn Davies**, (1887 - 1952)

## Ffynonellau


Haines MSS.

W. J. T. Collins, *More Monmouthshire Writers* (1948) (Newport, 1948)

*South Wales Argus*, 8 Ionawr 1924


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20734628


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu